Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Llongyfarchiadau..

## YSGOL GYNRADD LLANTRISANT



12 Diwrnod y Nadolig 2025
Enillydd 12

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# YSGOL GYNRADD LLANTRISANT

Eleni, enwebodd Ysgol Gynradd Llantrisant bedwar bachgen Blwyddyn 6 i fod yn Llysgenhadon Ifainc iddyn nhw. Dewison nhw'r bechgyn oherwydd eu bod yn arweinwyr naturiol sy'n mwynhau cyflwyno i'w cyfoedion yn ystod amser chwarae. Aeth y grŵp i'n cynhadledd ym mis Hydref ac maen nhw wedi rhoi eu hyfforddiant ar waith yn ôl yn yr ysgol.

Maen nhw wedi gwneud y gorau o adnoddau cyfyngedig i strwythuro amser chwarae a chyflwyno amryw o gemau a gweithgareddau llawn hwyl, gan ysbrydoli eu cyfoedion i gadw'n heini. Maen nhw wedi datblygu amserlen ac yn cael gadael y dosbarth yn gynnar i baratoi'r iard ar gyfer pob amser chwarae. Maen nhw'n cefnogi ac yn hyfforddi disgyblion iau gyda'u sgiliau cicio, pasio a tharo, gan eu helpu i ddatblygu a mwynhau chwaraeon. Y tymor yma, maen nhw wedi cyflwyno hoci, ac mae hyn wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'r plant eraill. Mae eu hathro yn falch iawn o'u cynnydd hyd yn hyn ac yn gyffrous i weld beth arall mae modd iddyn nhw ei wneud!